Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Idris

Dyddiad yr arolygiad: 21/09/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Crynodeb

Mae Ysgol Bro Idris yn gymuned pob oed gynhwysol a gofalgar ble mae lles, parch ac ymdeimlad cryf o berthyn yn ganolog i fywyd yr ysgol. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch at eraill. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddiried yn y staff i ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, gan ddarparu cymorth effeithiol i'r rhai sydd ei angen. Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ac mae cefnogaeth addas ar waith er mwyn cefnogi'r disgyblion i fynychu'r ysgol yn gyson. Er hyn, nid yw'r ymyraethau hyn bob amser yn cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion oedran uwchradd, yn enwedig.

Mae llawer o athrawon yn darparu sesiynau trefnus gyda chyfarwyddiadau clir ac adnoddau priodol sy'n helpu disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd addas. Yn y sesiynau gorau, mae'r athrawon yn gosod disgwyliadau uchel iawn, yn defnyddio cyd-destunau diddorol a pherthnasol ac yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw lefel yr her yn addas, ac mae gormod o arweiniad gan athrawon yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i feddwl a gweithio'n annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu priodol. Mae llawer yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Mae'r ysgol yn hyrwyddo darllen er pleser yn effeithiol trwy gynlluniau darllen penodol, defnydd effeithiol o'r llyfrgell a gweithdai gydag awduron a beirdd lleol. Mae medrau rhifedd a digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, hefyd. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu'u huwch fedrau darllen, eu hysgrifennu estynedig a medrau rhifedd a digidol mwy soffistigedig yn gynyddol dros amser.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi pwyslais cryf ar Gymreictod, treftadaeth leol a datblygiad personol disgyblion. Mae ystod eang o ymweliadau, ymwelwyr a phrofiadau gwaith yn cyfoethogi'r dysgu ac yn cysylltu'r cwricwlwm â'r byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy wahanol bwyllgorau sydd yn cael eu harwain gan ddisgyblion.

Mae'r pennaeth yn arwain Ysgol Bro Idris gyda gweledigaeth glir ac ymrwymiad cryf i les, parch a chynhwysiant, gan sicrhau bod yr ysgol yn gymuned hapus a chefnogol ar draws y chwech safle. Gyda chefnogaeth tîm arwain brwdfrydig, mae ymdeimlad cadarn o waith tîm ar draws pob safle ac mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel un sefydliad pob oed. Mae arweinwyr yn cydweithio'n rheolaidd i werthuso a gwella'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant bob amser yn ffocysu'n ddigon penodol ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a medrau disgyblion. Rhoddir pwyslais llwyddiannus ar hyrwyddo'r Gymraeg, cefnogi lles disgyblion a lleihau effeithiau tlodi. Mae perthnasoedd cryf â theuluoedd yn helpu disgyblion i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd yr ysgol.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Cryfhau a chysoni agweddau penodol o'r addysgu a amlygir yn yr adroddiad

A2 Sicrhau bod y disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol dros amser

A3 Gwella presenoldeb, yn enwedig presenoldeb disgyblion o oedran uwchradd

A4 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant er mwyn ffocysu'n fanylach ar effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026